# Trosolwg o'r Wers: Twyll Peryglus

| | | |
|---|---|---|
| **LLINYN:** | Diogelwch | Hyd y Wers:<br>Amrywio hyd at 60 munud d rwy gytundeb staff y ganolfan, yn ddibynnol ar a gyflwynir y wers yn gyfan neu mewn rhannau a sut mae'r disgyblion yn ymateb. |
| **CYFNOD ALLWEDDOL** | CA4 | |
| **GWERS:** | Twyll Peryglus | |

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc wedi eu hamddiffyn rhag gamfanteisio rhywiol. Mae pob plentyn a pherson ifanc o bosibl mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol. Mae gan ysgolion rôl ganolog i'w chwarae mewn lleihau'r perygl hwn. Drwy archwilio nodweddion perthynas ddiogel ac iach gall swyddogion helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i adnabod risgiau posibl, aros yn ddiogel a cheisio cymorth os oes ei angen.

Dylai'r gweithgareddau camfanteisio rhywiol gael eu cyflwyno fel rhan o ABCh a rhaglen addysg rhyw a chydberthynas yr ysgol. Dylai fod yn gyson â pholisi addysg rhyw yr ysgol a'r fframwaith gwerthoedd cytunedig ar gyfer addysg rhyw a chydberthynas. Bydd angen i chi ystyried a yw'r wers yn briodol ar gyfer anghenion eich dysgwyr o ran yr iaith, delweddau, aeddfedrwydd a'r ddealltwriaeth sydd ei angen.

Mae cyngor pellach ynglŷn ag addysgu materion sensitif ar gael ar y wefan ABCh drwy ddilyn y ddolen i 'addysgu am faterion sensitif' yn

http://wales.gov.uk/psesub/home/holisticpse/delivery/teachingsensitiveissues/?lang=cy

## NOD

- Adnabod beth yw camfanteisio rhywiol a gwybod lle i droi am gymorth

## AMCANION FFRAMWAITH ABCh

- Cael cyfleoedd i ymchwilio a chael eich cythruddo gan anghyfiawnder, camfanteisio a gwadu hawliau dynol Y (DW)
- Deall pwysigrwydd iechyd rhywiol a pheryglon mewn gweithgaredd rhywiol yn cynnwys camfanteisio rhywiol posibl Y (I&Ll)
- Derbyn cyfrifoldeb personol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac iach Y (I&Ll)
- Rhoi ystyriaeth i safbwyntiau gwahanol wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol S (DM)
- Gwrando'n astud mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn unol â hynny S (DC)
- Gwneud a chynnal cyfeillgarwch yn effeithiol mewn perthynas S (GGE)
- Bod yn gadarn a gwrthsefyll dylanwad nad ydych ei ddymuno gan gyfoedion ac eraill S (GGE)



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Trosolwg o'r Wers: Twyll Peryglus

### AMCANION Y WERS

- Codi ymwybyddiaeth a dechrau datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o gamfanteisio rhywiol
- Adnabod y rhybuddion a datblygu strategaethau ar gyfer delio â sefyllfaoedd camdriniol
- Gwybod lle i gael cymorth a chefnogaeth

### GEIRIAU ALLWEDDOL

camfanteisio, meithrin perthynas amhriodol, rheoli, cymhellion

### ADNODDAU

- Geiriau allweddol A4
- 'PowerPoint' y wers
- DVD rhan 1 a 2
- Cerdyn Diffiniad A4
- Cerdyn ffoto Lucy A4
- Cardiau ffoto sefyllfa
- Clipiau DVD stori'r dioddefwr
- Cardiau melyn llinell gymorth
- Dalen wybodaeth Swyddog

## GWEITHGAREDDAU

### CYFLWYNIAD

- Gweithgaredd cynhesu dewisol.
- Sicrhau bod y cysylltiad gyda'r wers flaenorol yn cael ei egluro.
- Cytuno ar y Rheolau Aur.
- Amlinellu'n glir y cytundeb dosbarth ynglŷn â chyfrinachedd.
- Egluro - arddangos yr amcanion dysgu a'r geiriau allweddol

### PRIF WEITHGAREDDAU

- Sefydlu diffiniad o camfanteisio rhywiol
- Dangos Rhan 1 y DVD
- Trafod mewn grwpiau y rhybuddion cynnar gan ddefnyddio cardiau ffoto Lucy
- Dangos Rhan 2 y DVD
- Trafod mewn grwpiau sut y gallai Lucy aros yn ddiogel gan ddefnyddio'r cardiau ffoto sefyllfa

### ADOLYGU/DOSBARTH CYFAN

- Dangos Rhan 3 y DVD: Stori'r dioddefwr. Stori wir.

## GWEITHGAREDDAU DILYNOL I ATHRAWON

Am ragor o wybodaeth ac adnoddau ar gyfer amrywiaeth o wersi a gweithgareddau, gweler adran athrawon yn y wefan www.schoolbeat.org



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government